

### **Cysylltu'r Â'r Cyngor Sir Er Mwyn Gwneud Sylwadau Ar Geisiadau Cynllunio Protocol**

Bydd yr awdurdod yn rhoi gwybod i aelodau'r cyhoedd a'r Cynghorau Tref a Chymuned (y gohebydd) bod hawl iddynt annerch y Pwyllgor Cynllunio pan dderbynnir gwrthwynebiad neu sylwadau, ac wrth gydnabod bod gohebiaeth wedi'i dderbyn.

Cynghorir y gohebydd i gysylltu â'r swyddog sy'n gyfrifol am y cais (darperir enw'r swyddog perthnasol) er mwyn trafod y protocol, dyddiad a lleoliad tebygol y cyfarfod pan fydd y Pwyllgor yn trafod y cais.

Bydd adroddiad y swyddog ar gael tridiau cyn dyddiad y cyfarfod i bawb sydd â diddordeb ac sydd wedi gofyn am gopi; bydd yr adroddiad hefyd ar gael ar wefan yr awdurdod ar [www.sirgar.gov.uk](http://www.sirgar.gov.uk) dridiau cyn dyddiad y cyfarfod.

Bydd gan wrthwynebydd sy'n codi mater cynllunio perthnasol, yr hawl i annerch y Pwyllgor. Bydd y Pennaeth Cynllunio yn penderfynu a yw'r mater a godir yn ystyriaeth gynllunio berthnasol. Oni ellir cytuno ar y pwynt hwn, bydd y Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith, Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor yn penderfynu a oes gan y gohebydd yr hawl i annerch y Pwyllgor. Bydd dau wrthwynebydd am bob cais cynllunio yn cael annerch y Pwyllgor a rhaid iddynt ysgrifennu llythyr cais at y Pennaeth Cynllunio i gyrraedd cyn hanner dydd o leiaf dri diwrnod gwaith cyn cyfarfod y Pwyllgor.

Mae gan Gyngorau Tref a Chymuned yr hawl i annerch y Pwyllgor, cyn belled â'u bod yn ysgrifennu llythyr cais at y Pennaeth Cynllunio, i gyrraedd cyn hanner dydd o leiaf dri diwrnod cyn cyfarfod y Pwyllgor.

Mae gan yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd yr hawl i ymateb i'r gwrthwynebiad a godir ond ni chaiff siarad yn unswydd er mwyn hyrwyddo'r cynllun. Oni chodir gwrthwynebiad, ni fydd gan yr ymgeisydd yr hawl i annerch y Pwyllgor.

Bydd yr ymgeisydd yn cael gwybod sut mae apelio os gwrthodir y cais. Bydd yr ymgeisydd yn cael gwybod o leiaf 24 awr cyn y cyfarfod bod gwrthwynebydd am annerch y cyfarfod.

Bydd yr Aelodau Lleol yn cael gwybod bod aelod o'r cyhoedd neu Gyngor Tref a Chymuned yn dymuno annerch y Pwyllgor.

#### **Trefn y cyflwyniad ger bron y pwyllgor:**

- Sylwadau agoriadol, cefndir ac adroddiad y swyddog;
- Gwrthwynebydd/cynrychiolydd – dau siaradwr am bob cais cynllunio (pum munud yr un, ar y mwyaf); Ymgeisydd/asiant;
- Aelod Lleol – aelod(au) lleol y cyngor ac un cynrychiolydd o'r cyngor tref/cymuned leol (pum munud yr un, ar y mwyaf);
- Cwestiynau a sylwadau gan aelodau'r Pwyllgor; Crynodeb gan y swyddog; Penderfyniad.

**Nodiadau:**

Bydd modd i'r cyhoedd weld y protocol ym mhob cyfarfod a bydd y Cadeirydd yn amlinellu'r broses ar ddechrau'r cyfarfod.

Os bydd y cyhoedd a/neu'r Cyngorau Tref a Chymuned yn dymuno annerch y Pwyllgor ar rai eitemau, yna bydd yr eitemau hynny yn cael eu trafod ar ddechrau'r Agenda mewn trefn a bennir gan y Cadeirydd.

Bydd sylwadau hwyr yn cael eu hystyried gan y Cadeirydd, y Pennaeth Cynllunio a'r cynrychiolydd cyfreithiol cyn cael eu dosbarthu. Bydd sylwadau hwyr yn cael eu cofnodi yn y cofnodion a'u dosbarthu os ydynt yn briodol i'r mater dan sylw.

Os wnaiff yr ymgeisydd gynnig i ohirio penderfyniad ar ei gais, ystyrir ei ddymuniad onid yw'r wybodaeth a dderbynnir yn ymwneud â materion perthnasol neu ychwanegol nad ydynt yn cael sylw yn adroddiad y swyddog.